**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Y Pwyllgor Menter a Busnes**

**Ionawr 2013**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol – y Bil Twf a Seilwaith – Diwygiadau i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

*Cefndir*

1. Ar 18 Rhagfyr 2012, gosododd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol[1] mewn perthynas â'r Bil Twf a Seilwaith[2], sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd.

2. Trafododd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm ar 8 Ionawr 2013. Cytunodd i'w gyfeirio at y Pwyllgor Menter a Busnes i graffu arno. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 31 Ionawr 2013. Bwriedir trafod y Memorandwm yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Chwefror 2013.

*Materion i'w hystyried*

3. Trafododd y Pwyllgor Menter a Busnes y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol uchod ar 16 Ionawr 2013.

4. Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y pŵer newydd a gynigir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a bod proses y Memorandwm hwnnw yn ffordd briodol a chymesur o roi'r pŵer hwn i Weinidogion Cymru.

5. Fodd bynnag, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth i ofyn iddi am wybodaeth ychwanegol naill ai cyn neu yn ystod y ddadl ar y Memorandwm yn y Cyfarfod Llawn. Cytunodd y Pwyllgor hefyd y byddai'n ddefnyddiol pe gellid rhoi gwybod iddo pryd y bydd y cynigion i newid y dyddiad ailbrisio wedi'u llunio'n derfynol fel bod gan y Pwyllgor ddigon o amser i graffu ar y cynnig, os yw'n cytuno bod angen gwneud hynny.

6. Mae copi o lythyr Cadeirydd y Pwyllgor at y Gweinidog yn amgaeedig er gwybodaeth.

---

[1] Gellir gweld y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yma: http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=241737&ds=12/2012

[2] Gellir gweld copi o'r Bil yma: http://services.parliament.uk/bills/2012-13/growthandinfrastructure.html

**Y Pwyllgor Menter a Busnes**
**Enterprise and Business Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Edwina Hart MBE, OStJ, AC
Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

28 Ionawr 2013

Annwyl Edwina

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Twf a Seilwaith – Diwygiadau i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988**

Trafododd y Pwyllgor Menter a Busnes y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol uchod ar 16 Ionawr 2013, ar ôl i'r Pwyllgor Busnes gyfeirio'r Memorandwm at y Pwyllgor.

Nododd y Pwyllgor y canlynol:

- Mae deddfwriaeth bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gynnal ailbrisiad o eiddo lle y telir ardrethi annomestig yng Nghymru i'w weithredu o 1 Ebrill 2015, a bod yn rhaid cynnal ailbrisiadau pellach ar 1 Ebrill bob pum mlynedd ar ôl hynny (hynny yw, yn 2020, 2025 ac ati).

- Prif effaith y darpariaethau, y gwneir cais am gydsyniad ar eu cyfer, yw rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru newid y dyddiad pryd y cynhelir yr ailbrisiad nesaf o 1 Ebrill 2015 i naill ai 1 Ebrill 2016, 2017, 2018, 2019, neu 2020. Byddai angen cynnal ailbrisiadau dilynol bob pum mlynedd ar ôl y dyddiad newydd.

- Byddai'r pŵer arfaethedig yn cael ei arfer gan Weinidogion Cymru drwy Offeryn Statudol y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 88582
E-bost / Email: sian.phipps@cymru.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh


- Mae'r pŵer arfaethedig yn mynd ymhellach na'r hyn a gynigir yn Lloegr, lle ceir cais i wneud un newid i'r dyddiad ailbrisio, sef o 2015 i 2017.

Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y pŵer newydd a gynigir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a bod proses y Memorandwm hwnnw yn ffordd briodol a chymesur o roi'r pŵer hwn i Weinidogion Cymru. Roedd y Pwyllgor hefyd yn ddiolchgar am eich llythyr dyddiedig 15 Ionawr (y mae copi ohono ynghlwm), sy'n nodi eich rhesymau dros yr hyblygrwydd ychwanegol a geisir yng Nghymru, a oedd yn ddull gweithredu synhwyrol yn ein barn ni.

Fodd bynnag, cytunodd y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi rhagor o fanylion am hynt adolygiad yr Athro Brian Morgan, naill ai cyn neu yn ystod y ddadl ar y Memorandwm yn y Cyfarfod Llawn. Cytunodd y Pwyllgor hefyd y byddai'n ddefnyddiol pe gellid rhoi gwybod iddo pryd y bydd y cynigion i newid y dyddiad ailbrisio wedi'u llunio'n derfynol fel bod gan y Pwyllgor ddigon o amser i graffu ar y cynnig, os yw'n cytuno bod angen gwneud hynny.

Rwyf wedi gofyn i'r llythyr hwn ac (er cyflawnder) eich llythyr dyddiedig 15 Ionawr, gael eu gosod gerbron y Cynulliad gan eu bod yn llunio adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm hwn.

Yn gywir



**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**

**Edwina Hart MBE OStJ AC / AM**
**Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth**
**Minister for Business, Enterprise, Technology and Science**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Nick Ramsay AM

Chair, Enterprise and
Business Committee

15th January 2013

Dear Nick

I understand that on the 16th January, the Enterprise and Business Committee will be discussing the Legislative Consent Motion in relation to amendment to the Growth and Infrastructure Bill. This seeks to provide Welsh Ministers with the power to decide the date of the next Non Domestic Rates revaluation.

I thought it might be helpful to the Committee to set out the reasoning behind our proposals.

The Bill puts the revaluation date in England back from 2015 to 2017, whereas the Welsh amendment provides Welsh Ministers with the powers to undertake a revaluation exercise over a range of years from 2016 to 2020. If Welsh Ministers were to determine that revaluation in Wales should remain in 2015, then they would rely on existing powers to do this.

As I said in my Written Statement of 13th December, Non Domestic Rate revaluation is an important issue for business in Wales. I did not wish to take an immediate decision on this complex matter, as time was needed to assess the implications of the proposals. I asked Professor Brian Morgan to gather expert opinion on this issue, in discussion with representatives of businesses in Wales. I expect his advice shortly.

In the interim and in order for Welsh Ministers to take the decision on the date of the revaluation in Wales, the amendment to the Growth and infrastructure Bill was tabled and was agreed at Report Stage in the House of Commons on the 17th December.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

I hope that the above provides sufficient information for your Committee's consideration.

